

Cofion

- Heddiw, anfonwn ein cofion at Harold Pierce (Llanefydd); a Trefor Jones a Menna Owen (Cefn Meiriadog) – y tri ohonynt yn Ysbyty Glan Clwyd. Hyderwn y byddant yn profi daioni'r Arglwydd yn eu cynnal, ac yn eu hiachau yn fuan iawn. Mae'n dda deall bod Doreen Evans (Tanyfron) wedi cael dod adre o'r ysbyty yn dilyn treulio nesaf peth i 4 mis yno! Diolchwn am y gofal a gafodd ar hyd yr amser ac anfonwn ein cofion ati, gan weddio y bydd yn cryfhau bob dydd ac yn adnabod daioni Duw yn ei hamgylchynu. Deallwn hefyd fod Bethan Williams (Cefn Meiriadog) wedi cael anffawd i'w ffêr. Dymunwn wellhad buan iawn iddi hithau. Cofiw'n am eraill sy'n mynd trwy amryw dreialon, a phery'r rhain yn ein gweddiau yr un modd.
- Llongyfarchiadau i Alan a Nerys Morgan (Llansannan) ar enedigaeth merch fach, Anest Wyn. Diolchwn i Dduw am y rhodd arbennig yma, a chyflwynwn y teulu i'w ofal.

LLANW

Cofiwch bod angen **archebu lle a thalu ERBYN IONAWR 26AIN** os ydych am logi carafan ar gyfer yr wyl deuluol a gynhelir yng Nghei Newydd rhwng Ebrill 9fed-13eg. Mwy o fanylion yn rhifyn wythnos diwethaf o Llais Bro Aled ac ar y wefan www.llanw.org.

I ddod

- **Cyflymu Tua'r Nod** – Cyfres fer o gyfarfodydd i holl flaenoriaid y Fro ac i unrhyw un arall sydd â diddordeb i ddod i ddeall mwy am weledigaeth y Fro a gwaith yr eglwys, Chwefror 2il (nos Iau) a Chwefror 28ain (nos Fawrth) am 7.30. Lleoliad i'w gadarnhau.
- **Penwythnos i blant Gofalaeth Bro Aled rhwng 8-11 oed yng Ngholeg y Bala**, Chwefror 3ydd-5ed. Cost: £55 y plentyn a £27.50 ar gyfer ail plentyn o'r un teulu, ond bydd gostyngiad o £10 i bob plentyn o'r Ofalaeth. Os oes unrhyw un heb roi ei enw, mae angen i chi wneud hynny ar frys gan lenwi ffurflen ganiatâd ac anfon blaendal o £10 i'r coleg. Ffurflenni a mwy o wybodaeth ar gael gan Rhodri (01745 870522 / 07814 660291).
- **Cwrs Ieuentid yng Ngholeg y Bala** - Chwefror 16eg-19eg.
- Bydd **Chwiorydd Eglwys Bro Aled** yn cyfarfod yn Llanefydd nos Fawrth, Chwefror 21ain am 7.00 gyda Dr Mari Lloyd Williams yn annerch. Thema ei sgwrs fydd "Creu Cymunedau sy'n dosturiol".

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 22^{ain} Ionawr 2012

Mae nifer o ddyddiadau pwysig ar gefn y daflen... cofiwch eu rhoi nhw yn eich dyddiadur!

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Bore da iawn i chi! Fe sylwch o'r cyhoeddiadau ein bod yn bwriadu cynnal cyfres fechan i bawb sydd â diddordeb – ond i flaenoriaid y Fro yn arbennig - o dan y teitl 'Cyflymu at y Nod'. Ein bwriad yw cyflwyno trosolwg ar ein nod fel gofalaeth, yr hyn yr ystyriwn fel gweithgarwch angenrheidiol i'r eglwys a'r ffordd y dylem geisio'r Arglwydd i osod y doniau a gawsom ganddo fwyfwy ar waith i gyflawni ei ewyllys Ef.

Yn ystod y flwyddyn wedyn rydym yn mynd i gynnal grwpiau hyfforddiant i'r rhai sydd am ddatblygu eu doniau o dan y teitl 'Adnabod dawn!' Gweddiwn am arweiniad yr Ysbryd i ni yn bersonol ac i ni fel eglwys Crist yn yr ardal yma. Mae Duw yn awyddus i'n bendithio, dim ond i ni ofyn ganddo fel ei blant yng Nghrist.

Yn amserol iawn cawsom bregeth ardderchog gan y Parch. Ddr. Geraint Tudur (ewythr Rhodri) yng Nghefn Meiriadog nos Fawrth. Pwysleisiodd bwysigrwydd ein bod yn arddel yr hyn ydym yn ein perthynas â Duw, sef 'saint'. Nid ein bod yn well na neb arall ond fod Duw wedi ein galw i fod mewn perthynas ag ef ei hun trwy Iesu Grist. Disgrifiodd y ffordd y bu i Dduw ei alw yntau pan oedd yn un o hoglec caled Bangor yn 17 oed. Defnyddiodd ymadrodd hyfryd pan ddywedodd fod, un noson, y profiad o ddarllen y Testament Newydd wedi newid o fod yn "ddarllen geiriau" i "glywed llais". Ac wedi ymateb i lais Duw, cael ei hun yn teimlo galwad i weinidogaeth y Gair. Rhyfeddol yw'r ffordd y mae ein Tad nefol yn ein galw; galw pawb mewn ffordd unigryw a phersonol, ein galw i ddwyn ffrwyth fel y gangen sydd yn y wir winwydden.

Soniodd hefyd am y ffordd y mae Duw wedi rhoi anrhegion i'w eglwys, anrhegion sydd bellach yn cael eu hesgeuluso. 'Does ryfedd meddai nad oes cynnydd yn y corff pan nad ydym yn defnyddio'r rhoddion y mae Duw wedi eu rhoi er mwyn peri i'r corff dyfu! Mae rhestr o'r anrhegion yma yn Effesiaid 4:11 – rhoddion Duw ydynt apostolion, proffwydi, efengylwyr, bugeiliaid ac athrawon.

Mewn ymateb i'r gair ac i her y bregeth, dyma a geisiwn wrth 'gyflymu at y nod'. Ceisiwn ewyllys Duw ar ein cyfer ni – a cheisiwn ddirnad ffrwyth yr Ysbryd ynom a fydd yn ein cymhwyso i gyflawni 'gwaith gweinidogaeth' ac i 'adeiladu corff Crist'!

Croeso i oedfaon y dydd a bydded i'r Arglwydd oleuo'i air i ni a'n galw i'w geisio.

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig, bydd Rhodri yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Llun • **Adnabod Be Nesa?** yn y Granar yn Llansannan am 7.30 i'r criw gafodd eu derbyn yn aelodau yn ddiweddar a ieuencid 15+.
- Iau • **Cyfarfod Plant** yn Llanefydd am 3.15.
• **Astudiaeth Feiblaidd** yn Llanefydd am 7.30.
- Gwener • **C.I.C.** (Clwb Ieuencid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc oed uwchradd yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.
- Gwener – Sul • **Aduniad Souled Out** yng Ngholeg y Bala. Y prif siaradwr fydd John Derek Rees. Ffoniwch 01678 520565 am fwy o wybodaeth.
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa Arbennig i'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Elen Elias, a bydd Clyde a Jan Briggs yn rhoi cyflwyniad i waith *Open Doors UK*, elusen Gristnogol sy'n gwasanaethu Cristnogion sy'n cael eu herlid mewn gwledydd eraill. Bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Ceir Cyfarfod Teuluol yng nghwmni Ben a Sioned Nuss yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Ni fydd Ysgol Sul yn y prynhawn. Yn Llanfair, bydd Cyfarfod Gweddi am 10.00 a'r Ysgol Sul am 11.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llansannan

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa am 10.00 a'r Ysgol Sul yn cyd-redeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Mawrth Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn y Granar am 7.30 pryd y bydd cyfle i aelodau Capel Hiraethog ethol mwy o ddiaconiaid.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch Meurig Dodd yn arwain oedfa am 10.00 a'r Ysgol Sul yn cyd-redeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00. Yn dilyn yr oedfa, cynhelir Cyfarfod Eglwys ar gyfer aelodau Tanyfron.
- Sul nesaf Bydd y Parch Meurig Dodd yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel a Saron am 10.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch John Robinson yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00 gyda phlant y ddwy eglwys yn cyfarfod yn Groes.
- Sul nesaf Bydd Elinor Owen yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 a chynhelir Gwasanaeth Thema yn Henllan am 10.00. Cynhelir yr Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma SYLWCH: Bydd Aled Owen yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac Arawn Glyn yn arwain oedfa yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00 a'r Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:
Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau